CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Medi 15, 2015 am 7:30 o'r gloch.

AGENDA

1.Croeso'r Cadeirydd

2. Ymddiheuriadau:

3. Datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 21, 2015

5. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 21, 2015

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (Awst, 2015) oddi wrth Cymorth Cynllunio Cymru yn gwahodd ni i weithdy Hyfforddiant ar gynllunio ar gyfer Clercod a Chynghorwyr Cymuned a Thref yn Plas Tan y Bwlch ar ddydd Llun Medi 21 am 6yh.

b. Llythyr (11/8/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi y cynigion a gyflwynir yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru ar 3/10/2015.

c. Llythyr (Awst 2105) oddi wrth Cymorth Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru. Maent yn cynnal gweithdy hyfforddiant ar gynllunio ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref yn Adeilad yr Institiwt, Pavillion Hill, Caernarfon ar Medi 23, 2015 rhwng 6.00yh-9.00yh.

d. Llythyr (Gorffennaf 2015) oddi wrth Shelter Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

dd. Llythyr (17/08/15) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar Cod Ymddygiad. Bydd sesiwn yn Swyddfa Cyngor Gwynedd, Penarlag ar 12/10/15 am 6.30yh. Mae gwahoddiad i'r clercod a'r aelodau'r cynghorau.

e. Llythyr (20 Awst, 2015) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd bydd gwaith rhoi gatiau newydd yn lle camfeydd ac atgyweirio gatiau ar lwybr yn Dolserau.

h. Llythyr (1/9/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Dealltwriaeth o'r Gyfraith bydd yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Rydd Dolgellau ar ddydd Mawrth 29/9/2015 am 6.30yh. Cost y cwrs fydd £35.

i Llythyr (4/9/2015) oddi wrth Wales Rally GB yn rhoi gwybod bydd y rali yn yr ardal ar ddydd Sadwrn, Medi 14 am 7.30yb.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/54/348B. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Newid defnydd o dir amaethyddol i ysgol farchogaeth ceffylau ynghyd ac adeiladu ffens goed ar hyd y terfyn a gwrych newydd. Wern Gawr, Rhydymain.

ii. Cais NP5/54/384A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Gosod ffliw allanol, adeiladu storfa goed a hafdy ynghyd a gosod tanc LPG o dan y ddaear. Beudy Caerynwch, Brithdir.

b. Llythyr (28/7/2015) gyda gwybodaeth mewn perthynas ag ymgyrch Gweld Sêr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Rhoddwyd copi i'r aelodau.

c. Cais cynllunio:

NP5/54/434. Cynllun trydan dwr 99.9kw arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae, adeilad tyrbin a gosod pibellau dan y ddaear. Afon Celynog, ger Prysglwyd Uchaf, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (Awst 4, 2015)/

8. Materion Ariannol

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Gorffennaf, 2015: £1,135.11.

c. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf, 2015: £6,112.76.

d. Derbyniwyd Praesept (28/08/15) am £3,000.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd.

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Gorffennaf, 2015: £1,135.18.

e. Balans yn y banc ar 29 Awst, 2015: £9,112.76.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

10. Unrhyw fater arall

a.. Cofiwch am y cyfarfod i drafod cael cynghorau dalgylch y Gader i gyd weithio fel sy'n cael ei wneud yn ardal Penllyn. Bydd cyfarfod yn Neuadd Bentref y Brithdir ar nos Wener Medi 25 am 7.30yh. i drafod y mater.

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc